SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

# Faint wnaethom ni ei wario


## Ebrill 2022 tan Mawrth 2023





darllen hawdd

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Yr hyn wnaethom ni wario arian arno | 4 |
| Faint wnaethom ni ei wario | 6 |
| Pam wnaethom ni wario llai | 7 |
| Yr hyn wnawn ni nesaf | 12 |
| Am fwy o wybodaeth | 13 |


Yn y ddogfen Darllen Hawdd hon, mae geiriau anodd mewn ysgrifen **drom**. Rydym yn egluro beth mae'r geiriau hyn yn ei feddwl yn y frawddeg wedi iddynt gael eu defnyddio.




Mae rhai geiriau'n las ac wedi'u tanlinellu. Mae'r rhain yn ddolenni a wnaiff fynd at wefan arall sydd â mwy o wybodaeth.

# Cyflwyniad

Daw'r wybodaeth hon o Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.



Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yng Ngogledd Cymru ydy Andy Dunbobbin.



Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn penderfynu faint o arian sydd ei angen ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru.



Eleni, cawsom ni fwy o arian i wario nag o'r blaen, oherwydd mae'r llywodraeth eisiau mwy o swyddogion heddlu yng Ngogledd Cymru.





Mae'r wybodaeth hon yn egluro faint mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi'i wario ar wasanaethau heddlu eleni.

# Yr hyn wnaethom ni wario arian arno

Gwnaethom ni wario arian ar:




- Costau staff – mae hyn am bethau fel talu cyflogau pobl.



- Cynorthwyo i dalu am **bensiynau** ein staff yn y dyfodol.

  Mae eich **pensiwn** yn arian rydych yn ei dderbyn ar ôl ymddeol.




- Costau sydd ddim ar staff – pethau fel lifrai a chostau rhedeg ceir ac adeiladau.




- Cyllid cyfalaf – mae hyn yn arian am beth y gwnawn ni eu defnyddio am fwy na blwyddyn, fel adeiladau, ceir neu gyfrifiaduron newydd.




- Gweithio gyda phobl a sefydliadau lleol.




- Gweithio gyda gwasanaethau heddlu eraill.

# Faint wnaethom ni ei wario



Fe wnaethom ni wario llai o arian nag y gwnaethom ni ei dderbyn i'w wario eleni.




Fe wnaethom ni gynllunio gwario oddeutu £182 miliwn.




Yn y diwedd, gwnaethom wario £6.29 miliwn yn llai na hyn.



Rydym ni wedi rhoi'r arian i **gronfeydd wrth gefn**.

Mae **cronfeydd wrth gefn** yn arian sydd heb ei ddefnyddio sy'n cael ei roi i'r ochr fel y gellir ei wario yn y dyfodol.





Mae'r gyfraith yn dweud fod rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gael arian mewn cronfeydd wrth gefn.

# Pam wnaethom ni wario llai




## Costau staff

Rydym ni'n cyflogi mwy o swyddogion heddlu a staff yr heddlu ar gyfer Gogledd Cymru.



Cafodd rhai o staff yr heddlu eu cyflogi yn hwyrach yn y flwyddyn, felly gwnaethom ddechrau eu talu nhw'n ddiweddarach.




Mae hyn yn golygu ein bod wedi gwario llai o arian nac sydd gennym ni.

## Costau nad yw'n gysylltiedig â staff





Fe wnaethom wario'n mwy nag yr oeddem ni'n ei ddisgwyl ar ein hadeiladau.


Mae hyn oherwydd:




- Gwaith adeiladu a oedd wedi ei gynllunio ar gyfer flwyddyn diwethaf wedi digwydd y flwyddyn yma.



- Trydan a nwy wedi costio mwy nag oeddem yn ei feddwl.





Fe wnaethom wario'n llai nag yr oeddem ni'n ei ddisgwyl ar geir a ffyrdd eraill o symud o gwmpas.



Mae hyn oherwydd bod llawer o staff swyddfa yn gweithio o'r cartref. Fe wnaethon ni wario mwy ar offer a dodrefn i ganiatau iddynt weithio o adref.




Fe wnaethom wario'n llai nag yr oeddem ni'n ei ddisgwyl ar gyfrifiaduron.



Roedd gennym fwy o arian yn dod i mewn nag yr oeddem yn ei ddisgwyl.

## Cyllid cyfalaf





Cyllid cyfalaf ydy'r arian wnaethom ni ei wario ar eitemau mawr fel adeiladau, ceir a chyfrifiaduron.



Weithiau, rydym ni angen benthyg arian am gyllid cyfalaf oherwydd ei fod yn costio llawer.



Ond oherwydd ein bod ni wedi arbed arian ar bethau eraill, roedd gennym ni arian dros ben.



Felly, nid oedd angen i ni fenthyg cymaint.

Mae'n rhatach defnyddio ein harian ein hunain yn hytrach na'i fenthyg.



Mae hyn yn golygu nad oes angen i ni wario cymaint yn y dyfodol wrth dalu benthyciadau yn ôl.

## Arian a gawsom ni o lefydd eraill

Ynghyd â'n harian ni gan y llywodraeth a'r dreth gyngor, fe gawsom ni arian o lefydd eraill. Mae'r rhain yn cynnwys:




- Arian o wasanaethau heddlu eraill ledled y wlad am eu cynorthwyo nhw.




Fe gawsom ni fwy o arian gan wasanaethau heddlu eraill na'r arferol eleni.




- Arian ar gyfer prosiectau arbennig, fel cyflogi mwy o swyddogion heddlu, neu wneud ffyrdd yn fwy diogel.


# Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd




Gwnaeth Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wario mwy na'r disgwyl.



- Roedd hyn oherwydd ein bod wedi cyflogi staff ychwanegol ar ôl i ni benderfynu paint yr oeddem am wario.



- Ond fe wnaethom arbed arian oherwydd bod rhai pobl yn gweithio o adref - roedd hyn yn golygu gwario llai ar fynd i lefydd.

# Yr hyn wnawn ni nesaf




Rydym ni wedi rhoi'r arian na wnaethom ni ei wario i gronfeydd wrth gefn.



Mae rhai pethau na wnaethom ni wario arian arno eleni oherwydd nid oeddem yn gallu eu gwneud.



Pan rydym yn gallu gwneud y pethau hyn eto, fe wnawn eu talu nhw gan ddefnyddio arian o'n cronfeydd wrth gefn.



Efallai bydd angen i ni wario mwy na'r disgwyl yn y dyfodol, oherwydd bod pethau'n costio mwy na'r hyn roeddent yn ei arfer.

Os ydy hyn yn digwydd, fe wnawn ni wario arian sydd gennym ni mewn cronfeydd wrth gefn i gynorthwyo gyda'r gost ychwanegol.

# Am fwy o wybodaeth




Gallwch edrych ar ein gwefan yma:
[www.northwales-pcc.gov.uk/cy](http://www.northwales-pcc.gov.uk/cy)





Os ydych angen mwy o wybodaeth, cysylltwch â ni drwy:

- Post:
  Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
  Pencadlys Heddlu Gogledd Cymru
  Glan y Don
  Bae Colwyn
  Conwy LL29 8AW



- Ffôn: 01492 805486




- E-bost:
  [OPCC@northwales.police.uk](mailto:OPCC@northwales.police.uk)

Mae'r wybodaeth Darllen Hawdd hon wedi'i chreu gan [easy-read-online.co.uk](http://easy-read-online.co.uk)